# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 3

MATERION SY'N YMWNEUD AG AMAETHYDDIAETH A CHYNHYRCHION AMAETHYDDOL

## PENNOD 1

CASGLU A RHANNU DATA

### 33 Adolygu gweithrediad ac effaith adrannau 25 i 32

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad o dan yr adran hon, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, ar weithrediad ac effaith adrannau 25 i 32 yn ystod y cyfnod.

(2) Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd—

(a) cyhoeddi'r adroddiad sy'n ymwneud â'r cyfnod adrodd, a

(b) ei osod gerbron Senedd Cymru.

(4) Yn yr adran hon, ystyr y "cyfnod adrodd" yw—

(a) yn achos yr adroddiad cyntaf, y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 25 yn dod i rym;

(b) yn achos adroddiadau dilynol, gyfnodau olynol o bum mlynedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 33 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(4)**

**I2** A. 33 mewn grym ar 17.10.2023 gan O.S. 2023/1092, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 33 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– s. 33 coming into force by 2023 asc 4 s. 56(4)